Deall cofrestriad meddyg

Canllaw i gleifion a gofalwyr

General Medical Council

Regulating doctors
Ensuring good medical practice

Mae'r daflen hon yn esbonio pam mae'n rhaid i'r meddyg sy'n eich trin (neu'r unigolyn rydych yn gofalu amdano) fod wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) a meddu ar drwydded i ymarfer.

Mae'r CMC yn rheoli meddygon – golyga hyn fod ein gwaith ni yw gwarchod, hyrwyddo a chynnal iechyd a diogelwch y cyhoedd trwy sicrhau safonau priodol mewn meddygaeth. Un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw trwy gadw cofrestr o bob meddyg sy'n gallu gweithio yn y DU.

Rhaid i unrhyw feddyg sydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol barchu'r safonau rydym yn eu gosod ar gyfer ymarfer proffesiynol. Os na fydd meddyg yn diwallu'r safonau hyn, gallwn gyfyngu ar ymarfer meddyg, gofyn iddo ddilyn hyfforddiant pellach, neu ei atal rhag ymarfer yn gyfan gwbl.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch wirio a oes gan eich meddyg gofrestriad gyda thrwydded i ymarfer:

1. Gofynnwch i'ch meddyg. Mae hawl gennych ofyn i'ch meddyg a yw wedi'i gofrestru gyda thrwydded i ymarfer. Rhaid i feddyg ddweud wrthych os nad oes trwydded ganddo.Ni ddylai fod yn eich trin os nad oes un ganddo.

2. Chwiliwch gofrestr ar-lein CMC. Mae hon i'w gweld yn **www.gmc-uk.org/register**

3. Ffoniwch CMC ar **0161 923 6602**. Gallwn ddweud wrthych a oes gan eich meddyg gofrestriad gyda thrwydded i ymarfer.

Pam dim ond meddygon gyda thrwydded i ymarfer sy'n gallu trin cleifion?

Mae'r gyfraith yn gofyn i unrhyw feddyg sy'n trin cleifion i fod wedi'i gofrestru gyda CMC gyda thrwydded i ymarfer.

Er bod meddygon yn gweithio mewn nifer o amgylcheddau gwahanol, dim ond y rhai sydd wedi'u cofrestru gyda thrwydded i ymarfer sy'n gallu, er enghraifft:

- gweithio fel meddyg yn GIG neu mewn practis preifat
- ysgrifennu presgripsiynau
- llofnodi tystysgrifau marwolaeth ac amlosgiad.

Mae'r meddygon nad ydynt yn meddu ar drwydded i ymarfer yn fwy tebygol o fod yn gweithio, er enghraifft, fel darlithwyr mewn ysgol feddygol, fel rheolwyr, neu y tu allan i'r DU.

Mae gofyn i sefydliadau, fel GIG a darparwyr gofal iechyd eraill, sicrhau bod y meddygon y maent yn eu cyflogi yn meddu ar drwydded i ymarfer os bydd eu gwaith yn gofyn iddynt wneud hynny felly.

Sut y gallwch gael mynediad i gofrestr meddygol

Gall unrhyw un wirio cofrestriad meddyg trwy ddefnyddio'r Rhestr o Ymarferwyr Meddygol Cofrestredig ar-lein. Mae hon bob amser yn gyfoes a bydd yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i chi:

- rhif cyfeirnod y meddyg, ei enw, (unrhyw) enw blaenorol a'i ryw
- y flwyddyn a'r lle enillodd y meddyg ei gymhwyster meddygol
- statws cyfredol y meddyg ar y gofrestr feddygol (hynny yw, a yw wedi'i gofrestru gyda thrwydded i ymarfer, neu wedi'i gofrestru heb drwydded i ymarfer)
- manylion unrhyw gamau a gymerwyd efallai yn erbyn y meddyg gan CMC.

Mae'r gofrestr feddygol ar-lein i'w gweld yn **www.gmc-uk.org/register** neu gallwch ein ffonio i wirio cofrestriad meddyg ar **0161 923 6602**.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am CMC a rheoli meddygon i'w weld ar ein gwefan: **www.gmc-uk.org**

Mae'r daflen hon hefyd ar gael i'w llwytho i lawr ar ein gwefan yn yr ieithoedd canlynol: Arabeg, Bengaleg, Tsienëeg, Gwjarati, Hindi, Pwnjabeg, Wrdw a Saesneg. Ewch **www.gmc-uk.org/understandingregistration**

Os hoffech gael copi o'r daflen hon mewn gwahanol fformat neu iaith, ffoniwch **0161 923 6602** neu e-bostiwch **gmc@gmc-uk.org**

Arabic
وتتوفر هذه النشرة أيضاً بالعربية. يمكنك تنزيلها من موقعنا على الإنترنت
www.gmc-uk.org/understandingregistration

Bengali
এই প্রশ্নপত্রটি বাংলাতেও লভ্য। আপনি এটা আমাদের
www.gmc-uk.org/understandingregistration ওয়েবসাইট থেকে ডাউনলোড করতে পারেন।

Chinese
本传单还可提供中文版。您可从我们的网站 www.gmc-uk.org/understandingregistration 处进行下载

Gujarati
આ પત્રિકા ગુજરાતીમાં પણ ઉપલબ્ધ છે. આપ તેને અમારી વેબસાઇટ
www.gmc-uk.org/understandingregistration પરથી ડાઉનલોડ કરી શકો છો.

Hindi
यह पुस्तिका हिन्दी में भी उपलब्ध है। आप इसे हमारी वेबसाइट
www.gmc-uk.org/understandingregistration से डाउनलोड कर सकते हैं।

Punjabi
ਇਹ ਪੁਸਤਿਕਾ ਪੰਜਾਬੀ ਵਿਚ ਵੀ ਉਪਲੱਬਧ ਹੈ। ਤੁਸੀਂ ਇਸ ਨੂੰ ਸਾਡੀ ਵੈਬਸਾਈਟ
www.gmc-uk.org/understandingregistration ਤੋਂ ਡਾਊਨਲੋਡ ਕਰ ਸਕਦੇ ਹੋ।

Urdu
یہ کتابچہ اردو میں بھی مہیا ہے۔ آپ اس کو ہماری ویب سائٹ
www.gmc-uk.org/understandingregistration سے ڈاؤن لوڈ کر سکتے ہیں۔

Welsh
Mae'r daflen hon ar gael yn y Gymraeg. Gallwch ei llwytho i lawr ar ein gwefan yn **www.gmc-uk.org/understandingregistration**

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**
Gwefan: **www.gmc-uk.org**

General Medical Council

Regulating doctors
Ensuring good medical practice

Mae CMC yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1089278) ac yn yr Alban (SC037750). Cyhoeddwyd Tachwedd 2009. Cod cyhoeddi: GMC/LIFDEAOOS